YSGOL GYNRADD HAFODWENOG
POLISI GWRTH-FWLIO YSGOL HAFODWENOG
Hafodwenog School Anti-Bullying Policy

Cydnabod bod bwlio yn gallu digwydd, hyd yn oed mewn sefydliadau hapus a chynhaliol fel Ysgol Hafodwenog. Cydnabod bod dau begwn i'r bwlio; o'r achlysurol ac amlwg i'r cyson a chudd ac fod hyn yn gallu amharu'n fawr ar hapusrwydd y sawl sy'n cael ei fwlio yn ogystal ag ar hapusrwydd y bwli ei hun. Gweithredu i addysgu plant sut mae delio gyda bwlio mewn modd sensitif a phositif. Sicrhau mai delwedd annifyr, gwan ac anghymdeithasol sydd i'r Bwli yn gyffredinol.

The school must recognize that bullying can take place in a happy and supportive environment like School. The school must also consider that there are two extremes of bullying – the occasional and obvious incidents to the quiet, hidden and regular pestering. Both can cause profound anxiety and the pupil may become stressed and unhappy. The school, as part of it's Social and Emotional learning (SEAL) should educate the pupils on the strategies to respond to bullying in a sensitive and positive manner. They should be made aware that the act of bullying is both unacceptable and an anti-social act.

AMCANION
Ein dehongliad o fwlio
Ar wahanol achlysuron derbynir cwyn yn yr ysgol fod bwlio wedi cymryd lle - bod rhyw blentyn neu'i gilydd yn camdrin plentyn arall, un ai allan ar yr iard neu'r cae neu o fewn y dosbarth. Medr achosion o'r fath yn achosi teimladau annifyr dros ben ac mae'n angenrheidiol ymdrin â'r sefyllfa yn sydyn ac yn effeithiol.

AIMS
What is bullying?
Occasionally, the school is informed that a bullying incident has taken place – a pupil may have caused physical harm to another pupils on the school yard or in the classroom. It's therefore imperative that the situation is dealt with swiftly and effectively to ensure that these isolated incidents are not repeated and that the guilty pupil is reprimanded accordingly.

Medr bwlio ddigwydd mewn sawl gwahanol ffordd - mae'r camdrin corfforol yn amlwg i bawb ac yn gadael ei olion yn eglur. Ar y llaw arall, mae "camdrin" mewn ffyrdd dirgel trwy wawdio a bychanu yn medru llethu plentyn, ond heb adael unrhyw olion. Yn agos iawn at hyn, mae bwlio trwy fygwth a dychryn yn medru creu ofn ac yn rhywbeth sy'n anodd iawn i'w 'weld'.

Bullying can happen in different ways – physical incidents are the most obvious to recognize as they can leave marks as evidence. On the other hand, a quieter and subtle incidents e.g. name-calling, can be as painful for the individual. The act of threatening and frightening a pupil can also cause distress although visual marks are impossible to prove.

Mae'r bwli yn hoffi 'gweld' yr ofn yma - yn hoffi gweld y 'pwer' sydd ganddo. Mae'n un ffordd y medr gael ei 'ffordd ei hun'. Mae pob plentyn wedi mynnu ei ffordd ei hun rywdro, ond tyfa plentyn naturiol allan o hyn, tra bydd y bwli yn cael mwy a mwy o bleser a mwynhad o fygwth plant sy'n llai ac yn ieuengach nag ef. Medrant fagu hen agwedd "ceiliog ben domen" allan ar y cae neu ar yr iard, trwy wahardd ambell blentyn rhag cymryd rhan mewn gêm neu efallai dorri ar draws gêm arall gyda'i glochdar.

A bully thrives on seeing this "fright" in the eyes of another pupil and having the feeling of power and control over a situation. Most young children show signs of being very demanding but soon grow out of this behaviour. A bully can also thrive on threatening younger children and enjoy the feeling of being king of the castle. This behaviour can also be to deny an individual from playing a

game or to deliberately spoil another's game/ activity during playtime.

CANFOD BWLIO A GWEITHREDU

1. Rhaid rhoi gwybod i'r pennaeth ynghylch unrhyw achos o fwlio ac ystyried pob achos yn unigol.

2. Rhaid gwneud amser i wahodd y rhieni i'r ysgol er mwyn medru gwyntyllu'r sefyllfa'n fanwl. Mae gwneud hyn yn gadael i'r rhieni wybod ein bod ni fel staff ac fel ysgol yn cymryd y gwyn o ddifrif ac yn fwy na pharod i wneud ein gorau i wella'r sefyllfa. Os yw'n briodol, gwahoddir rhieni'r bwli i'r ysgol yn ogystal.

3. Hyd yn hyn 'rydym wedi medru goresgyn unrhyw broblem trwy drafodaeth a sgwrs a chael plentyn i sylweddoli ein bod yn fwy na pharod i'w helpu. Ceir yr un llwyddiant wrth drafod yn yr un modd gyda'r bwli.

4. Pur anaml y daw problemau o fwlio i'r amlwg yn syth. Mae ffrwgwd yn digwydd ambell waith a cheisir gwahaniaethu rhwng ffrwgwd achlysurol a bwlio parhaol. Trafodir gwrthdaro ar bob achlysur gyda'r holl staff er mwyn adnabod patrymau o wrthdaro all fod yn fwlio. Cytunwn fel staff bod angen I ni gydweithio er mwyn creu awyrgylch hapus lle medr plentyn fwynhau derbyn ei addysg. Mae unrhyw drafferthion allanol yn mynd i effeithio ar ddatblygiad y plentyn ac yn medru gwneud eu bywydau yn uffern ar y ddaear.

5. Cedwir cofnod manwl o'r honiadau i edrych os oes patrwm yn datblygu.

DEALING WITH BULLYING INCIDENTS EFFECTIVELY

1. *The headteacher must be informed regarding any form of bullying and to consider all cases individually.*

2. *The school must make arrangements to invite parents of the pupil being bullied to fully understand the extent of the unacceptable behaviour. The instigator and his or her parents must recognize that this behaviour is not acceptable in our school or in society in general. The parents of the bully may also be called to the school in the event of the bullying behaviour continuing.*

3. *This initial strategy is to discuss the matter openly with the pupil and to reassure that we the school staff are supportive and ready to assist however trivial the complaint may appear. This approach can also be effective with the bully.*

4. *It can be difficult to recognize a pattern of bullying behaviour. A confrontation may take place and could turn out to be an isolated incident. This "one off" incident must be differentiated from the regular and ongoing bullying behaviour. All staff should be made aware of the difference between an isolated fracas compared to the regular and planned behaviour of the bully. The school staff should promote positive beaviour and attitudes at all times and to and to ensure that all pupils enjoy their education. External factors will impact on the development of the suffering pupil.*

5. *A record will be kept of any bullying behaviour or incidents.*

Y STRATEGAETHAU SYDD MEWN LLE I WARCHOD RHAG BWLIO

Cymerir camrau gan y pennaeth i weld a deall beth sy'n digwydd. Heb ei wneud yn amlwg, gall gydweithio a'r staff i gadw llygad ar y berthynas rhwng gwahanol garfanau ac unigolion a cheisio gwrando ar y sgwrs o fewn y grwp. Os yw pethau wedi datblygu yn rhy bell i ymdrin â'r sefyllfa heb ffwdan yna, cynhelir gwers gyda'r dosbarth cyfan a rhoi cyfle i'r disgyblion ysgrifennu'n greadigol neu'n ffeithiol ar fwlio e.e. chwarae rol ac amser cylch.

STRATEGIES THAT ARE IN PLACE TO AVOID BULLYING

Steps are taken by the headteacher and staff to avoid bullying incidents taking place in school. This can be done discretely to ensure that all is well between groups of pupils and that individuals don't feel isolated in any way. A class teacher could also present lessons to relay important messages regarding bullying (SEAL). Pupils can also be asked to present their thoughts on paper.

Cedwir cofnod manwl o'r honiadau i edrych os oes patrwm yn datblygu. Cedwir cofnod hefyd o unrhyw drafodaethau a geir gyda disgyblion, rhieni a staff ynghylch bwlio. Mae naws ac awyrgylch ysgol yn chwarae rhan bwysig - sut mae'r oedolion yn trin y plant, y gofalwr , y gogyddes neu oruchwyliwr awr ginio? Mae'n holl bwysig fod hunan ddelwedd dda y plant yn cael ei gynnal gorau gallwn. Mae gennym athro/athrawes ar ddyletswydd amser chwarae a goruchwylwraig ar ddyletswydd amser cinio ac, felly, mae'n bosibl cadw llygad ar ddigwyddiadau.

A record will be kept of persistent allegations to see if a pattern appears. A record is also kept of any discussions with pupils, parents and staff regarding a bullying matter. The ethos and atmosphere in the school influences the behaviour of nearly all pupils – the attitude of staff towards pupils, the dinner ladies and kitchen staff also. The school must promote positive self-esteem by encouraging and giving praise for good behaviour. Teaching and support staff must ensure that all pupils behave appropriately during break and lunch times.

Hefyd goruchwylir mannau lle gallai fwlio ddigwydd. Sicrheir bod y disgyblion yn cyrraedd eu gwersi mewn pryd. Trafodir materion yn ymwneud a bwlio gyda'r disgyblion ac yn enwedig gyda Chyngor yr Ysgol. Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion rannu'u pryderon trwy ystod o ddulliau e.e. blwch syniadau'r Cyngor Ysgol a Bydis Buarth (pe bai angen).

Staff must observe areas around the school where bullying could occur e.g. the far end of the field. Pupils must be punctual at the beginning of a lesson. Matters concerning bullying are also discussed in school council meetings. Pupils are encouraged to vice their concerns to a member of staff or a member of the school council. Yard Buddies can also be encouraged if needed.

Cynhelir cyflwyniadau er mwyn codi proffil mentrau gwrth-fwlio. Defnyddir Cwricwlwm yr ysgol i gefnogi'r neges gwrth-fwlio (e.e. ABCH) a hyrwyddo materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth mewn modd cadarnhaol. PAWB yn yr ysgol yn ymwybodol o'r gweithdrefnau sydd ar waith. Defnyddir proses i helpu'r bwli i uniaethu a'r dioddefwr ac i ddeall y gofid y mae wedi'i achosi. Defnyddir techneg cylch ffrindiau lle mae'r ysgol yn hyfforddi disgyblion i ddod yn ffrindiau a'r rhai sy'n cael eu bwlio yn ogystal a'r bwlis eu hunain. Cyfathrebir yn aml gyda rhieni gan roi gwybodaeth iddynt am weithdrefnau'r ysgol. Holiaduron disgyblion a rhieni yn gofyn am ymateb i weithdrefnau'r ysgol.

Important messages regarding anti-social behaviour are relayed during morning assemblies (e.g. SEAL). The curriculum is also used to present the importance of anti-bullying (PSE). ALL members of the school community should be aware of the procedures. Pupils are encouraged to support others. Feedback from questionnaires is used regularly to collect evidence from pupils, parents and staff regarding any concerns about the school community as a whole.

YR ATHRO DOSBARTH

Y berthynas rhwng yr athro dosbarth a'r plentyn yw'r pwysicaf. Medr athro teimladwy, sy'n barod i fynd allan o'i ffordd i helpu ei ddosbarth, fod o gymorth amhrisiadwy. Medr ei ffordd a'i ddull a'i barch arwain at yr un math o agweddau yn y plant eu hunain. Mae'n bwysig bod y plant yn cael y teimlad medrant fynd at athro unrhyw amser er mwyn cael sgwrs neu er mwyn egluro bod rhywbeth yn eu poeni.

Gwneir defnydd o Amser Cylch ymhob dosbarth i drafod bwlio ar adegau penodol o'r flwyddyn ysgol.

SANCSIYNAU

Nid y Bwli a gosbir drwy sancsiynau'r ysgol ond ei weithredoedd. Cosbir yn unol a threfn yr ysgol pan ganfyddir bwlio a phwysleisir nad oes croeso i'r Bwli yn yr ysgol a bod angen i'r plentyn newid ei ffordd. Trefn sancsiynau:

1.Cofnodi enw'r bwli a math o fwlio a rhoi rhybudd geiriol a cherdyn coch. Hysbysir rhieni'r plentyn sy'n bwlio ac fe'i gwahoddir i mewn i drafod mesurau addas a phriodol i ddatrys y sefyllfa.

2. Os yn parhau anfonir ail- lythyr at y rhieni i ddod i gyfarfod a'r Pennaeth a gosod cyfres o fesurau e.e. gwaharddiad amser cinio neu waharddiad penodol. Gwahoddir y Swyddog Lles i'r cyfarfod hwn.

Gall rieni hefyd chwarae rhan hanfodol bwysig drwy:

1. son wrth eu plant am bwysigrwydd ymddwyn yn gymdeithasol;
2. roddi gwybod am unrhyw amheuon sydd ganddynt naill ai ynghylch y sawl sy'n dioddef effeithiau bwlio neu'r sawl sy'n gyfrifol am fwlio disgyblion eraill;
3. gadarnhau a chefnogi'r polisi bwlio sy'n weithredol.

I GRYNHOI

Fel y crybwyllwyd yn gynharach, bydd sawl plentyn yn cwyno wrth athro yn ystod y tymor bod rhywun wedi ei guro/wthio/daro neu'n gwrthod gadael iddo chwarae rhyw gêm neu'i gilydd. Ein problem ni yw penderfynu os yw hyn yn golygu bwlio neu yn rhywbeth sydd wedi codi oherwydd rhyw ffrae neu gilydd.

Rhaid cadw llygaid ar y plant tawel eu natur - y rhai hynny na ddaw byth i gwyno, er eu bod yn dioddef. Medr eu dyddiau ysgol fod yn hynod anhapus ac wrth gwrs bydd safon eu datblygiad addysgol yn dioddef.

Rhaid gwylio'r plentyn pryfoclyd diddiwedd fedr fynd gam yn rhy bell rhyw ddiwrnod a chael curfa gan y diniwed. Mae'n hynod hawdd i'r diniwed gael cosb heb ei haeddu. Serch hynny, pwysleisir ar bob achlysur nad yw'r ysgol yn gallu dioddef codi dwrn yn erbyn cyd-ddisgybl.

Dr C James (Pennaeth)